**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad – Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Gwener 17 Mehefin 2022 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| M Bailey | S Bennett | J P Curtice |
| P Downing | V A Holland | S Joy |
| P Lloyd | H M Morris | B J Rowlands |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: C L Philpott ac L V Walton

---

## 4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2022 a 24 Mai 2022 yn gofnod cywir.

## 6 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 7 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – DDP.

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â DDP.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd DDP, yng nghwmni Mr J, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Anfon llythyr rhybuddio at DDP ynghylch ymddygiad yn y dyfodol mewn perthynas â'i Drwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

## 8 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adnewyddu Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – LJL.

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â LJL.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd LJL yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) y dylid adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni a hurio preifat LJL am flwyddyn.

Rheswm dros y penderfyniad

Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod y troseddau wedi digwydd mewn tacsi a bod nifer o droseddau wedi'u cyflawni a phwyntiau wedi'u derbyn ar y drwydded dros gyfnod cymharol fyr o amser, ac roedd hyn yn dangos patrwm ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd.

Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol adnewyddu'r drwydded am gyfnod o flwyddyn, ond byddai'n atgoffa'r ymgeisydd bod yn rhaid iddo sicrhau ei fod yn

hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw droseddau yn y dyfodol o fewn y cyfnod amser penodedig a sicrhau bod yr hysbysiad yn cael ei dderbyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.41am

**Cadeirydd**